Ofcom
sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

# Trwyddedu teledu lleol

## Ymgynghoriad ar y penderfyniad dros dro i beidio â hysbysebu nac ail-hysbysebu rhai trwyddedau teledu lleol

**YMGYNGHORIAD:**


Dyddiad Cyhoeddi: 20 Ebrill 2018
Dyddiad Cau ar gyfer Ymateb: 1 Mehefin 2018

# Gair am y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn nodi penderfyniad dros dro Ofcom i beidio â hysbysebu nac ail-hysbysebu trwyddedau mewn 13 ardal benodol, nac mewn ardaloedd eraill yn eu lle, a gafodd eu dynodi ar gyfer cyflwyno gwasanaethau teledu lleol, ond lle nad oes trwyddedau wedi'u dyfarnu hyd yma.

Bydd hyn yn rhyddhau Comux, y gweithredwr sy'n gyfrifol am y seilwaith trawsyrru ar gyfer teledu lleol, o'i rwymedigaeth bresennol i adeiladu'r seilwaith trawsyrru yn y lleoliadau hyn.

Rydym yn credu y byddai parhau i fynnu bod y rhwydwaith trawsyrru teledu lleol yn cael ei ymestyn i'r lleoliadau hyn neu i ardaloedd amgen, fel oedd y bwriad blaenorol, yn cael effaith niweidiol ar hyfywedd economaidd y sector teledu lleol yn ei gyfanrwydd. Mae'r ddogfen hon yn egluro'n fanwl beth yw'r rhesymau dros ein penderfyniad dros dro.

Rydym yn gwahodd pawb sydd â diddordeb neu y mae hyn yn effeithio arnynt i gyflwyno sylwadau ar benderfyniad dros dro Ofcom erbyn 1 Mehefin 2018.

# Cynnwys

## Adran


1. Cyflwyniad 3

2. Asesu a phenderfyniadau dros dro 7

A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn 13

A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom 16

A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad 17

# 1. Cyflwyniad

1.1 Cafodd gwasanaethau teledu lleol eu trwyddedu gan Ofcom i ddechrau yn 2013. Bellach mae gwasanaethau teledu lleol wedi'u trwyddedu i ddarlledu mewn 34 lleoliad gwahanol ledled y Deyrnas Unedig.

1.2 Roedd y trwyddedau darlledu teledu lleol ("trwyddedau L-DTPS") rydym wedi'u dyfarnu hyd yma yn dilyn y penderfyniadau yr oeddem wedi'u nodi yn y ddogfen "Datganiad Teledu Lleol",[1] a gyhoeddwyd ym mis Mai 2012. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut byddem yn defnyddio ein pwerau a'n dyletswyddau wrth gyflwyno teledu lleol, gan gynnwys sut byddem yn trwyddedu un amlblecs teledu lleol newydd i gludo'r holl wasanaethau teledu lleol unigol. Fe wnaethom ddweud y byddai'r gwasanaethau'n cael eu cyflwyno mewn dau gam. Yn ystod Cam 1, fe wnaethom ddweud y dylai'r trwyddedai amlblecs lleol ddatblygu'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer o leiaf 21 o wasanaethau teledu lleol mewn lleoliadau yr oedd Ofcom wedi'u dynodi'n addas ar gyfer gwasanaethau teledu lleol. Yn ystod Cam 2, byddai gofyn i drwyddedai'r amlblecs ymestyn i'r lleoliadau ychwanegol yr oedd ef ei hun wedi'u cynnig yn ei gais am drwydded amlblecs.[2]

1.3 Ar hyn o bryd nid oes trwydded teledu lleol wedi'i dyfarnu (am wahanol resymau) ar gyfer 13 lleoliad a oedd i fod yn rhan o'r broses o gyflwyno teledu lleol. Rydym wedi ystyried a ddylem hysbysebu neu ail-hysbysebu'r trwyddedau teledu lleol yn yr ardaloedd hyn, neu ddarparu trwyddedau ar gyfer ardaloedd cyfagos yn eu lle, er mwyn cwblhau'r broses a oedd yn cael ei rhagweld yn y Datganiad Teledu Lleol. Nid ydym yn bwriadu gwneud hynny, am y rhesymau a nodir yn y ddogfen hon. Cyn gwneud penderfyniad terfynol, rydym yn rhoi cyfle i randdeiliaid gyflwyno sylwadau ynghylch ein cynnig, gan nodi'n benodol unrhyw faterion y maent yn credu y dylem eu hystyried, ac nad ydym wedi rhoi sylw iddynt yn yr ymgynghoriad hwn.

1.4 Yng ngweddill yr adran hon, rydym yn cyflwyno'r canlynol o ran cefndir:

- y rhwymedigaethau rydym wedi'u gosod ar Comux, y trwyddedai amlblecs lleol, ac ar y trwyddedigion teledu lleol, i sicrhau bod gwasanaethau teledu lleol yn cael eu darparu ac ar gael;
- strwythur ariannu Comux a gwasanaethau teledu lleol;
- sut mae trwyddedu gwasanaethau teledu lleol wedi datblygu'n ymarferol ers cyhoeddi'r Datganiad Teledu Lleol yn 2012.

---

[1] "Datganiad Teledu Lleol": Trwyddedu Teledu Lleol. Sut bydd Ofcom yn defnyddio ei bwerau a'i ddyletswyddau newydd i drwyddedu gwasanaethau teledu lleol newydd. 10 Mai 2012, ar gael yma: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0020/54236/local-tv-statement.pdf

[2] "Datganiad Teledu Lleol": Trwyddedu Teledu Lleol. Sut bydd Ofcom yn defnyddio ei bwerau a'i ddyletswyddau newydd i drwyddedu gwasanaethau teledu lleol newydd. 10 Mai 2012, ar gael yma: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0020/54236/local-tv-statement.pdf - paragraff 1.18.

## Rhwymedigaethau perthnasol y trwyddedai amlblecs lleol a'r trwyddedigion teledu lleol o ran y drwydded

1.5 Dyfarnodd Ofcom y drwydded amlblecs lleol i Comux yn 2013. Yn ei gais am drwydded, nododd Comux ei fod yn ymrwymo i adeiladu rhwydwaith trawsyrru yn seiliedig ar Nodyn Darpariaeth Ofcom, dyddiedig 10 Mai 2012, ar gyfer pob un o'r 21 safle yng Ngham 1. Roedd hefyd yn cadarnhau y bydd yn ymestyn i bob un o'r 28 lleoliad yng Ngham 2, ar yr amod y byddai cwmnïau teledu lleol yn cael trwyddedau i ddarlledu yn y lleoliadau hynny. [3] Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i gynnwys yn amodau trwydded amlblecs Comux, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Comux sefydlu, gweithredu a chynnal rhwydwaith trawsyrru ar gyfer darlledu'r gwasanaethau teledu lleol ar yr amlblecs yn y lleoliadau perthnasol. Hefyd, mae amodau trwydded Comux yn ei gwneud yn ofynnol iddo sicrhau bod gwasanaethau teledu lleol wedi'u trwyddedu ar gael drwy gapasiti wrth gefn ar ei amlblecs, ac mae rhwymedigaeth gyfwerth ar ddeiliaid trwydded L-DTPS i sicrhau bod eu gwasanaethau ar gael ar yr amlblecs lleol.

1.6 Pan gyhoeddodd Ofcom y Datganiad Teledu Lleol, yr argraff gyffredinol oedd y byddai cystadleuaeth i ddarparu gwasanaethau teledu lleol yn y lleoliadau a oedd wedi'u dynodi. Fodd bynnag, roeddem yn cydnabod y posibilrwydd efallai na fyddem yn derbyn ceisiadau ar gyfer pob un o'r lleoliadau teledu lleol a hysbysebwyd, ac na fyddai rhai ceisiadau'n bodloni'r meini prawf statudol ar gyfer dyfarnu trwyddedau. Felly, fe wnaethom ddweud y byddem yn hysbysebu trwyddedau ar gyfer yr holl leoliadau a oedd yn cael eu cynnig gan drwyddedai'r amlblecs, a phan oeddem wedi hysbysebu trwydded ond heb ei dyfarnu ee oherwydd na chafwyd unrhyw ymgeiswyr, y byddem yn ail-hysbysebu'r drwydded. Hefyd, fe wnaethom ddweud, pe na byddai trwydded L-DTPS yn cael ei dyfarnu, y gallem geisio hysbysebu trwydded ar gyfer y lleoliad agosaf o ran maint y gallai Ofcom ei sicrhau yn ei le.[4]

## Trefniadau ariannu ar gyfer gwasanaethau teledu lleol a'r rhwydwaith trawsyrru teledu lleol

1.7 Fel rhan o bolisi teledu lleol y llywodraeth, roedd arian ar gael gan y BBC i dalu am adeiladu seilwaith y trosglwyddydd teledu lleol. Mae Comux wedi defnyddio'r arian hwn i adeiladu'r seilwaith trawsyrru sy'n ofynnol i gludo 34 o wasanaethau teledu lleol yr oedd Ofcom wedi dyfarnu trwyddedau iddynt rhwng 2013 a 2015.[5] Daeth arian y BBC ar gyfer y seilwaith teledu lleol i ben ar 31 Gorffennaf 2017. Felly, bydd rhaid ariannu costau adeiladu unrhyw seilwaith ychwanegol mewn modd arall.

---

[3] Nodwyd hyn ar dudalen 8 Cais Comux am y drwydded, sydd ar gael yma: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20160702162827/http://licensing.ofcom.org.uk/binaries/tv/local-tv/mux-applicants/Comux_UK_Ltd_.pdf

[4] "Datganiad Teledu Lleol": Trwyddedu Teledu Lleol. Sut bydd Ofcom yn defnyddio ei bwerau a'i ddyletswyddau newydd i drwyddedu gwasanaethau teledu lleol newydd. 10 Mai 2012, ar gael yma: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0020/54236/local-tv-statement.pdf, paragraff 2.62 a 3.37.

[5] Dechreuodd y lleoliad olaf o'r rhain ddarlledu ar 31 Gorffennaf 2017.

1.8 Hefyd, mae costau gweithredu parhaus ynghlwm â rhedeg yr amlblecs, ac mae Comux yn trosglwyddo'r gost honno i'r trwyddedigion teledu lleol. Mewn gwirionedd, y trwyddedigion L-DTPS ar y cyd sy'n berchen ar Comux, ac mae'r elw y mae'n ei wneud yn cael ei ddosbarthu iddynt hwy er mwyn gwneud iawn am gostau gweithredu'r rhwydwaith y byddai'n rhaid i'r trwyddedigion eu talu fel arall.

1.9 Fel y gwelir yn yr Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu 2017[6], mae gwasanaethau teledu lleol wedi cael eu hariannu'n bennaf drwy gymysgedd o hysbysebu, arian y BBC (arian a warchodir yn bennaf wrth i'r BBC brynu eitemau newyddion lleol), incwm masnachol ac anfasnachol arall, a thele-siopa. Bwriad arian y BBC a warchodir oedd rhoi rhywfaint o sicrwydd ariannu i'r gwasanaethau teledu lleol newydd wrth iddynt gychwyn.[7] Fodd bynnag, wrth i'r gwasanaethau aeddfedu, bydd angen iddynt sicrhau ffynonellau eraill o refeniw er mwyn dod yn hunangynhaliol.

1.10 Fel y nodir ym mharagraff 1.8, un ffynhonnell incwm ar gyfer y gwasanaethau teledu lleol yw 'ad-daliadau' gan Comux ei hun, i'r graddau y mae'n gallu cynhyrchu elw. Mae'r dadansoddiad o'r wybodaeth ariannol am y sector yn ein Hadroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu 2017 yn dangos bod y sector cyfan yn dal i wynebu heriau o ran amrywio ffynonellau incwm; mae ffigurau'n dal i ddangos dyled net yn gyffredinol, er gwaethaf rhywfaint o welliannau mewn perfformiad.

## Hysbysebu a dyfarnu trwyddedau teledu lleol

1.11 Roedd y trwyddedau teledu lleol cyntaf a gafodd eu hysbysebu ar gyfer y 21 lleoliad canlynol: Belfast, Birmingham, Brighton & Hove, Bryste, Caerdydd, Caeredin, Glasgow, Grimsby, Leeds, Lerpwl, Llundain, Manceinion, Newcastle, Norwich, Nottingham, Rhydychen, Plymouth, Preston, Sheffield, Southampton ac Abertawe. Dyfarnwyd pob un o'r trwyddedau hyn ar wahân i un ar gyfer Plymouth (nid oedd unrhyw ymgeiswyr) ac erbyn 24 Awst 2015, roedd pob un o'r 20 gwasanaeth trwyddedig wedi lansio, gyda Comux yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros adeiladu'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer trosglwyddyddion ym mhob lleoliad.

1.12 Hysbysebwyd y trwyddedau ar gyfer pob un o'r lleoliadau yng Ngham 2 yr oedd Comux wedi'u dynodi yn ei gais, ac roedd felly yn ofynnol iddo ymestyn ei rwydwaith trawsyrru unwaith roedd trwydded teledu lleol wedi'i dyfarnu, mewn tri chylch yn ystod 2013 a 2014. O'r rhestr o'r lleoliadau yng Ngham 2, fe wnaethom hysbysebu trwydded, ond ni wnaethom ei dyfarnu mewn naw lleoliad (Bangor, Barnstaple, Forth Valley, Caerloyw, Inverness, Limavady, Derry/Londonderry, Luton a Stoke-on-Trent).

1.13 Erbyn diwedd 2014, roedd hyn yn gadael tri lleoliad o'r rhestr yng Ngham 2 i'w hysbysebu: Kidderminster, Bromsgrove a Stratford-upon-Avon.

[6] https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/multi-sector-research/cmr/cmr-2017/wales

[7] http://downloads.bbc.co.uk/aboutthebbc/insidethebbc/howwework/reports/pdf/bbc_local_content_acquisition_january2017.pdf

1.14 Yn 2014, penderfynodd Ofcom ryddhau rhan o'r sbectrwm a oedd yn cael ei defnyddio i ddarlledu teledu digidol, gan gynnwys teledu lleol, i'w defnyddio ar gyfer data symudol[8]. Nid oedd modd rhagweld yn gywir ac yn hyderus sut byddai'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau lleol yn y dyfodol, nes byddai'r ymarfer hwn wedi'i gwblhau. Felly, fe wnaethom benderfynu peidio â hysbysebu unrhyw drwyddedau teledu lleol eraill am y tro.

1.15 Rydym nawr mewn sefyllfa lle rydym bron â chwblhau'r gwaith cynllunio i glirio'r band 700 MHz, ac rydym yn deall sut mae modelau economaidd Comux a'r gwasanaethau teledu lleol eu hunain yn gweithio ar lefel ymarferol yn llawer gwell. Felly, rydym wedi ystyried a yw ein bwriad gwreiddiol (fel y nodwyd yn y Datganiad Teledu Lleol yn 2012) i hysbysebu, ail-hysbysebu neu amnewid trwyddedau nad ydynt wedi'u hysbysebu na'u dyfarnu yn dal yn briodol.

1.16 Nid ydym yn bwriadu hysbysebu trwyddedau ar gyfer y lleoliadau hyn nac unrhyw leoliadau eraill yn eu lle, am y rhesymau a nodir yn Adran 2. Rydym wedi dod i'r farn dros dro hon drwy ddefnyddio'r un profion ag y gwnaethom eu defnyddio yn 2012 (gan gynnwys yr effaith ar ddinasyddion ac ar ddefnyddwyr) er mwyn dewis lleoliadau addas ar gyfer gwasanaethau teledu lleol, gan ystyried yr wybodaeth a ddaeth i law ynghylch sut mae'r sector teledu lleol yn gweithredu a pha mor hyfyw ydyw.

1.17 Rydym yn nodi'r sail dros ein penderfyniad dros dro yn yr adran nesaf.

[8] Gweler *Penderfyniad i ddarparu'r band 700 MHz ar gyfer data symudol - datganiad*.
https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0024/46923/700-mhz-statement.pdf

# 2. Asesu a phenderfyniadau dros dro

2.1 Pan ddewisodd Ofcom y lleoliadau ar gyfer Cam 1 a Cham 2 y broses o gyflwyno teledu lleol yn 2012[9], roeddem wedi defnyddio'r meini prawf canlynol: hyfywedd technegol; tystiolaeth o'r galw yn lleol a maint/hyfywedd economaidd. [10] Rydym wedi defnyddio'r un meini prawf nawr i asesu a ydym am hysbysebu, ail-hysbysebu neu amnewid trwyddedau ar gyfer y 13 o leoliadau lle nad oes trwyddedau wedi'u dyfarnu hyd yma, gan ddefnyddio data rydym wedi'i gasglu ers i wasanaethau teledu lleol gael eu lansio fel sail ar gyfer ein hasesiad.

2.2 Mae'r meini prawf yn cynnwys ystyried yr elfennau canlynol:

- Ar gyfer hyfywedd technegol, rydym wedi ystyried y ddarpariaeth i gartrefi sy'n cael ei darparu gan y sbectrwm, a all fod ar gael yn yr ardal berthnasol.
- Ar gyfer tystiolaeth o'r galw yn lleol, rydym wedi ystyried lefel y diddordeb gan ddarpar ymgeiswyr ar hyn o bryd.
- Ar gyfer hyfywedd economaidd, rydym wedi ystyried dwy elfen:
  - Hyfywedd economaidd tebygol gwasanaeth ym mhob lleoliad unigol;
  - Effaith trwyddedu'r gwasanaethau teledu lleol newydd hyn ar hyfywedd economaidd deiliad trwydded amlblecs teledu lleol Comux a'r trwyddedigion teledu lleol presennol.

2.3 Rydym wedi ystyried ein dyletswyddau statudol wrth gynnal ein hasesiad, gan gynnwys:

- ein prif ddyletswydd o hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebu a buddiannau defnyddwyr mewn materion perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol o dan Adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003;
- ein dyletswyddau o dan Adran 3 o Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 wrth gyflawni ein swyddogaethau sbectrwm, gan ystyried y galw am sbectrwm a pha mor ddymunol yw hybu rheoli a defnyddio'r sbectrwm yn effeithlon.

2.4 Fel y nodir yn fanylach isod, mae ein hasesiad yn datgelu ei bod yn debygol bod sbectrwm addas ar gael yn y rhan fwyaf o'r 13 lleoliad, ac mae rhywfaint o dystiolaeth bod gan ddarpar ymgeiswyr ddiddordeb. Fodd bynnag, rydym yn credu mai dim ond mewn pump o'r lleoliadau dan sylw y mae gan wasanaethau teledu lleol y cyfle i fod yn hyfyw yn economaidd, o ystyried yr amcangyfrif o'u darpariaeth i gartrefi a'r gyfran isel o

---

[9] Fel y nodwyd yn gynharach, roedd lleoliadau Cam 1 yn darparu gwybodaeth sylfaen yr oedd disgwyl i unrhyw un a oedd yn gwneud cais am drwydded amlblecs eu datblygu. Gallai ymgeiswyr ddewis ym mha leoliadau yng Ngham 2 y byddent yn ymrwymo i adeiladu yno: ymrwymodd Comux i bob un ohonynt.

[10] "Datganiad Teledu Lleol": Trwyddedu Teledu Lleol. Sut bydd Ofcom yn defnyddio ei bwerau a'i ddyletswyddau newydd i drwyddedu gwasanaethau teledu lleol newydd. 10 Mai 2012, ar gael yma: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0020/54236/local-tv-statement.pdf Mae'r meini prawf ar gyfer dewis lleoliadau cam 1 yn cael eu nodi yma: paragraff 3.5 (hyfywedd technegol), 3.10 a 3.15 (hyfywedd economaidd ar gyfer yr amlblecs) a 3.14 a 3.16 (diddordeb lleol a maint/hyfywedd economaidd lleoliadau unigol). Defnyddiwyd meini prawf tebyg i ddewis y lleoliadau ar gyfer cam 2, fel y nodir ym mharagraff 3.35 (hyfywedd technegol, y galw yn lleol a hyfywedd economaidd).

drwyddedau rydym wedi gallu eu dyfarnu i ardaloedd sy'n cynnwys 50,000 neu lai o gartrefi. Hefyd, ar sail yr hyn rydym yn ei ddeall am y gwariant cyfalaf sy'n ofynnol yn ogystal â chostau gweithredu Comux, rydym yn credu y byddai costau ymestyn y rhwydwaith trawsyrru i unrhyw rai o'r lleoliadau, neu unrhyw leoliadau amgen, yn peryglu hyfywedd y sector teledu lleol yn ei gyfanrwydd.

## Hyfywedd technegol

2.5 Rydym wedi asesu'r ddarpariaeth i gartrefi gan sbectrwm a all fod ar gael ym mhob un o'r tri lleoliad lle nad oes trwyddedau wedi'u hysbysebu hyd yma (Kidderminster, Bromsgrove, Stratford- upon-Avon).

2.6 Nid ydym wedi ailasesu a oes sbectrwm ar gael a'r ddarpariaeth bosibl i gartrefi ar gyfer pob un o'r lleoliadau eraill, felly rydym wedi defnyddio'r ffigurau darpariaeth yr oeddem wedi'u modelu ar gyfer y lleoliadau hyn cyn cynllunio'r 700 MHz fel y procsi gorau sydd ar gael. Mae hyn yn cael ei nodi yn Nhabl 1. Rydym yn cydnabod bod y ddarpariaeth yn debygol o fod wedi gostwng o ganlyniad i'r gwaith cynllunio hwnnw yn rhai o'r lleoliadau.

**Tabl 1: Darpariaeth i gartrefi ar gyfer lleoliadau lle nad oes trwyddedau wedi'u dyfarnu[11] - ar sail modelu cyfrifiadurol yn 2012 neu 2017**

| **Lleoliad** | **Yr amcangyfrif diweddaraf** |
|---|---|
| Bangor | 16,000 neu lai (ar sail modelu cyfrifiadurol yn 2012) |
| Kidderminster | Tua 18,000 (ar sail modelu cyfrifiadurol yn 2017) |
| Bromsgrove | Tua 23,000 (ar sail modelu cyfrifiadurol yn 2017) |
| Stratford-upon-Avon | Tua 34,000 (ar sail modelu cyfrifiadurol yn 2017) |
| Barnstaple | 32,000 neu lai (ar sail modelu cyfrifiadurol yn 2012) |
| Limavady | 35,000 neu lai (ar sail modelu cyfrifiadurol yn 2012) |
| Derry-Londonderry | 36,000 neu lai (ar sail modelu cyfrifiadurol yn 2012) |
| Inverness | 49,000 neu lai (ar sail modelu cyfrifiadurol yn 2012) |
| Luton (Bedford+Luton) | 82,000 neu lai (ar sail modelu cyfrifiadurol yn 2012) |
| Plymouth | 100,000 neu lai (ar sail modelu cyfrifiadurol yn 2012) |
| Stoke-on-Trent | 100,000 neu lai (ar sail modelu cyfrifiadurol yn 2012) |

[11] Roedd rhai lleoliadau wedi cael eu huno yn dilyn proses ymgynghori gan Ofcom. Mae'r rhain yn cael eu dynodi mewn cromfachau yn y tabl.

| | |
|---|---|
| Caerloyw (Caerloyw + Malvern + Henffordd) | 220,000 neu lai (ar sail modelu cyfrifiadurol yn 2012) |
| Forth Valley | 380,000 neu lai (ar sail modelu cyfrifiadurol yn 2012) |

## Y galw yn lleol

2.7 Mae Tabl 2 yn cyflwyno'r dystiolaeth o'r galw sydd wedi dod i law gan ddarpar weithredwyr gwasanaethau teledu lleol, ar ôl iddynt ddatgan diddordeb ohonynt eu hunain. Mae hyn yn dangos bod tri lleoliad lle nad ydym wedi cael unrhyw dystiolaeth o'r galw yn lleol, a phedwar arall lle nad oes unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb wedi'u derbyn ers 2015.

**Tabl 2: crynodeb o'r datganiadau o ddiddordeb**

| Lleoliad | Adeg hysbysebu | Y datganiad o ddiddordeb diweddaraf |
|---|---|---|
| Bangor | Ie | 2014 |
| Kidderminster | Amh. | 2016 |
| Bromsgrove | Amh. | 2016 |
| Stratford-upon-Avon | Amh. | 2016 |
| Barnstaple | Dim | Dim |
| Limavady | Dim | Dim |
| Derry-Londonderry | Dim | 2017 |
| Inverness | Ie | Dim |
| Luton (Bedford+Luton) | Dim | 2015 |
| Plymouth | Dim | 2015 |
| Stoke-on-Trent | Ie | 2016 |
| Caerloyw (Caerloyw + Malvern + Henffordd) | Dim | 2014 |

| | | |
|---|---|---|
| Forth Valley | Dim | 2017 |

## Hyfywedd economaidd

2.8 Rydym yn ystyried mai dim ond pump lleoliad lle ceir tystiolaeth o'r galw yn lleol fyddai'n hyfyw yn economaidd, ac mae hyn yn seiliedig ar ein hasesiad o'r ddarpariaeth i gartrefi yn 2012: Luton, Plymouth, Stoke-on-Trent, Caerloyw a Forth Valley.[12] Wrth asesu hyfywedd economaidd, rydym wedi ystyried a fyddem ni'n disgwyl i unrhyw un wneud cais am y drwydded, ar sail yr hyn rydym yn ei wybod am ardaloedd sydd â phoblogaeth o'r un maint, neu pe byddent yn gwneud cais, a fyddem yn disgwyl gallu dyfarnu'r drwydded ar sail cynllun busnes realistig. [13] Dyma grynodeb o'n canfyddiadau hyd yma:

- Nid oes ceisiadau hyfyw wedi'u cyflwyno ar gyfer y rhan fwyaf o drwyddedau mewn lleoliadau gyda darpariaeth i gartrefi sydd o dan 50, 000.[14]
- Mae'r rhan fwyaf o'r trwyddedau ar gyfer lleoliadau sydd â darpariaeth i gartrefi o rhwng 50,000 a 100,000 wedi cael eu dyfarnu ac mae gwasanaethau wedi'u lansio.[15]
- Mae mwyafrif helaeth y trwyddedau ar gyfer lleoliadau gyda darpariaeth ar gyfer dros 100,000 o gartrefi wedi'u dyfarnu, ac mae gwasanaethau wedi'u lansio.[16]

2.9 Fodd bynnag, pan fyddwn yn ystyried costau ymestyn y rhwydwaith trawsyrru y mae Comux yn eu hwynebu, rydym yn credu y byddai trwyddedu'r 13 gwasanaeth teledu lleol ychwanegol hyn yn cael effaith niweidiol ar y sector teledu lleol yn ei gyfanrwydd.

2.10 Mae hyn oherwydd na fydd arian ar gael gan y BBC ar gyfer unrhyw wariant cyfalaf sy'n angenrheidiol i adeiladu'r seilwaith newydd ar gyfer trosglwyddyddion yn y lleoliadau hyn. Hefyd, oherwydd bod y lleoliadau hyn yn weddol fychan yn gyffredinol o ran eu darpariaeth i gartrefi, byddai'r refeniw cynyddrannol y byddai Comux yn gallu ei greu yn sgil y trosglwyddyddion hyn yn is na chyfanswm y costau gweithredu cynyddrannol a'r gwariant cyfalaf a fyddai'n gysylltiedig â nhw. Felly, rydym wedi dadansoddi y byddai

---

[12] Fel y nodir ym mharagraff 2.6 uchod, mae'n bosibl bod y ddarpariaeth i gartrefi yn yr ardaloedd hyn ar y sbectrwm sydd ar gael bellach yn is na'r lefelau a gafodd eu modelu yn 2012, o ganlyniad i ailgynllunio'r 700MHz.

[13] Gan fod y sector yn weddol newydd, mae'n rhy gynnar dod i gasgliad ynghylch hyfywedd economaidd ardaloedd teledu lleol mewn ffordd fwy cyffredinol, hy drwy edrych ar allu gwasanaethau unigol yn y tymor hir i gynhyrchu elw dros gyfnod y drwydded. Fodd bynnag, rydym wedi cynhyrchu trosolwg o ddatblygiadau'r sector cyfan hyd yma. Tarwch olwg ar ein Hadroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu 2017: https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/multi-sector-research/cmr/cmr-2017/uk

[14] Ni dderbyniwyd ceisiadau mewn tri lleoliad (Barnstaple, Limavady a Derry-Londonderry). Ni ddyfarnwyd 2 drwydded oherwydd bod Ofcom yn pryderu am gynaliadwyedd y modelau busnes a oedd yn cael eu cynnig (Bangor ac Inverness), a dyfarnwyd 3 trwydded (Yr Wyddgrug, Caersallog a Scarborough).

[15] Ni dderbyniwyd ceisiadau mewn tri lleoliad (Luton, Plymouth, Stoke-on-Trent) ac mae trwyddedau wedi'u dyfarnu mewn 7 lleoliad o'r math yma o faint (Brighton, Basingstoke, Caergrawnt, Caerliwelydd, Guildford, Rhydychen ac Abertawe). Mae'n werth nodi bod y trwyddedigion yn gofyn am gynnydd yn y ddarpariaeth wedi hyn ym mhedwar o'r lleoliadau (Basingstoke, Caergrawnt, Rhydychen ac Abertawe).

[16] Ni dderbyniwyd ceisiadau mewn dau leoliad yn y grŵp hwn (Caerloyw a Forth Valley) ac ni ddyfarnwyd trwydded ar gyfer 1 lleoliad. Dyfarnwyd trwydded i'r 24 lleoliad arall yn y grŵp hwn.

dyfarnu trwyddedau i'r 13 lleoliad sydd ar ôl (neu leoliadau addas cyfwerth) yn cael gwir effaith ariannol negyddol sylweddol ar Comux.[17]

2.11 Nid dim ond Comux fyddai'n profi effaith ariannol lansio'r gwasanaethau ychwanegol. Gellid disgwyl hefyd i hyn gael effaith ar weddill y sector teledu lleol yn fwy cyffredinol. Ar hyn o bryd, mae'n bosibl fod y symiau y mae trwyddedigion teledu lleol yn eu talu i Comux am wasanaethau rhwydwaith a thrawsyrru yn cael eu lleihau o ganlyniad i'r elw y mae Comux yn ei gynhyrchu a'i ddosbarthu. Rydym yn credu y byddai'r costau y byddai Comux yn eu hwynebu wrth ymestyn y rhwydwaith i leoliadau eraill yn lleihau'r tebygolrwydd y byddai hyn yn parhau, ac o'r herwydd, byddai costau gwirioneddol trawsyrru yn codi i drwyddedigion teledu lleol unigol presennol. Oherwydd yr heriau ariannol y mae'r sector yn eu hwynebu'n barod[18], gallai hyn beryglu cynaliadwyedd y gwasanaethau sy'n darlledu'n barod ymhellach.

2.12 Nid ydym yn credu bod y manteision posibl i ddefnyddwyr a dinasyddion a fydd yn cael eu sicrhau yn sgil trwyddedu gwasanaethau teledu lleol newydd yn y lleoliadau sydd wedi'u henwi yn gorbwyso'r perygl y byddai trwyddedu unrhyw wasanaethau o'r fath yn debygol o gael effaith ariannol niweidiol sylweddol ar y sector teledu lleol presennol, a allai, yn ei dro, arwain at niwed i ddefnyddwyr a dinasyddion o ganlyniad i lai o ddewis o bosibl o ran rhaglenni a rhaglenni o safon is, neu rai gwasanaethau'n dod i ben hyd yn oed.

2.13 Yn olaf, dylid nodi ein bod ni wedi asesu'r effaith ariannol ar Comux drwy gyfeirio at y rhwymedigaeth sydd gan Comux yn ei drwydded i ymestyn ei rwydwaith i'r lleoliadau sydd ar ôl yng Ngham 1 a'r lleoliadau sydd wedi'u dynodi yng Ngham 2 fel y nodir yn ei gais (neu ddewisiadau eraill addas) yn hytrach na fesul lleoliad unigol. Rydym yn cynnig rhyddhau Comux o'r rhwymedigaeth hon mewn perthynas â'r 13 lleoliad lle nad oes trwydded wedi'i dyfarnu, ac i beidio â mynd ati'n rhagweithiol i hysbysebu neu ail-hysbysebu trwyddedau teledu lleol yn yr ardaloedd hyn, am y rhesymau a nodwyd. Serch hynny, gall darpar drwyddedigion barhau i ofyn i Ofcom hysbysebu trwydded mewn lleoliad newydd, a gall trwyddedigion presennol sy'n dymuno ymestyn eu darpariaeth i ardaloedd eraill gyflwyno cais ar y cyd â Comux am ymestyn, pan fyddant yn credu bod lle i gael gwasanaeth economaidd hyfyw na fyddai'n cael effaith niweidiol ar y sector teledu lleol yn ehangach. Bydd cynigion o'r fath yn cael eu hystyried ar eu haeddiant, yng ngoleuni ein meini prawf asesu a'n dyletswyddau statudol.

## Penderfyniad dros dro a gwahoddiad i gyflwyno sylwadau

2.14 Felly, yn dilyn yr ystyriaethau rydym wedi'u cyflwyno uchod, rydym yn bwriadu:

- peidio â hysbysebu nac ail-hysbysebu trwyddedau teledu lleol ar gyfer y 13 lleoliad lle nad oes trwyddedau wedi'u dyfarnu eto, nac ar gyfer lleoliadau eraill yn eu lle; a

[17] Mae ein dadansoddiad yn seiliedig ar wybodaeth ariannol sy'n gyfrinachol yn fasnachol y darparodd Comux i Ofcom (cyfrifon rheoli ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ar 30 Medi 2016; refeniw ffrydio fideo cenedlaethol fesul aelwyd ac amcangyfrifon o'r costau cynyddrannol blynyddol a'r incwm cynyddrannol blynyddol ar gyfer pob un o'r 13 lleoliad).
[18] Fel y nodir yn adroddiad Ofcom *Y Farchnad Gyfathrebu 2016, 2. Teledu a Chynnwys Clyweledol*, tudalennau 80 i 86, ar gael ar-lein: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0026/17495/uk_tv.pdf ac yn yr Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu 2017, Teledu a Chynnwys Clyweledol, tudalennau 66 i 76. Ar gael ar-lein: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0010/105040/wales-tv-audio-visual-cymru.pdf

- rhyddhau Comux o'i rwymedigaeth i gyflwyno ei rwydwaith trawsyrru i'r lleoliadau Cam 2 a gafodd eu henwi yn ei gais.

2.15 Gwahoddir ymatebwyr i gyflwyno sylwadau ynghylch a ydynt yn cytuno â'r cynnig hwn. Os oes unrhyw fater y mae ymatebwyr yn credu y dylai Ofcom ei ystyried cyn gwneud ei benderfyniad terfynol, dylid nodi hyn gan roi eglurhad cryno ynghylch pam gallai hynny fod yn bwysicach na'r ffactorau rydym wedi'u cyflwyno yn y ddogfen hon.

# A1. Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A1.1 Byddai Ofcom yn hoffi i chi gyflwyno eich safbwyntiau a'ch sylwadau ynghylch y materion sydd wedi'u codi yn y ddogfen hon erbyn 5pm ar 1 Mehefin 2018.

A1.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-2/local-tv-licensing Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A1.3 Os ydy eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw'n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i'w gefnogi, a fyddech chi cystal â'i anfon dros yr e-bost i LocalTV@ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â'r ddalen gyflwyno (https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/consultation-response-coversheet). Mae'r cyfeiriad e-bost ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yn unig, ac ni fydd yn ddilys ar ôl mis Mehefin 2018.

A1.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i'r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi'i farcio arnynt:

Leen Petré
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
London SE1 9HA

A1.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- Anfonwch recordiad ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb. Ni ddylai'r recordiad bara am fwy na 5 munud. Dyma'r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVDs. Neu
- Llwythwch fideo ohonoch chi'n defnyddio'r iaith arwyddion i gyfleu'ch ymateb yn syth i YouTube (neu safle lletya arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A1.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol).

A1.7 Nid oes angen copi papur o'ch ymateb arnom yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A1.8 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A1.9 Byddai'n ddefnyddiol petai modd i'ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae'r cwestiynau'n cael eu rhestru ym Mharagraffau 2.14 a 2.15. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A1.10 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â Leen Petré ar 020 73914939, neu anfon e-bost at LocalTV@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A1.11 Mae ymgyngoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori gau. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau ymarfer rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau ymatebwyr eraill, fel rheol byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan, www.ofcom.org.uk, cyn gynted ag y byddant yn dod i law.

A1.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu'ch ymateb.

A1.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifrif ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.14 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Mae hawliau eiddo deallusol Ofcom yn cael eu hegluro ymhellach yn https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/website/terms-of-use

## Y camau nesaf

A1.15 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, mae Ofcom yn bwriadu cyhoeddi datganiad cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl hynny.

A1.16 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom; i gael rhagor o fanylion edrychwch ar https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/latest/email-updates

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.17 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A1.18 Os oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y modd rydyn ni'n rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges drwy'r e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy'n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.19 Os hoffech drafod y materion hyn neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch â Steve Gettings, hyrwyddwr ymgynghori Ofcom:

Steve Gettings
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A2. Egwyddorion ymgynghori Ofcom

## Mae Ofcom yn dilyn saith egwyddor ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

### Cyn yr ymgynghoriad

A2.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol â phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr i gael gwybod a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

### Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A2.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A2.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd efallai â diddordeb yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom yw'r prif unigolyn i gysylltu ag ef i roi barn am y modd rydym yn cynnal ein hymgyngoriadau.

A2.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

### Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.7 Rydym yn credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau'r ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na chafwyd y ddogfen ymgynghori drwy'r e-bost):

## CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb rydych yn ei hystyried yn gyfrinachol, a rhowch eich rhesymau am hynny

Dim rhan o'r ymateb ☐

Enw/manylion cyswllt/teitl swydd ☐

Ymateb cyfan ☐

Sefydliad ☐

Rhan o'r ymateb ☐

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? ____________________________________________

______________________________________________________________________________________

Os nad ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu enw'ch sefydliad gael eu cyhoeddi, a gaiff Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, yn achos unrhyw rannau cyfrinachol, grynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn golygu bod modd eich adnabod)?

## DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i ymgynghoriad y caiff Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni rhwymedigaethau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon ymateb drwy'r e-bost, caiff Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys neges e-bost ac atodiadau.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os yw'n gopi papur)